Cyfarfod hybrid o gyfarfod y **PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 7fed Rhagfyr 2022 yn cychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs M. A. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Mrs J. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, Miss S. L. Roberts, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 41. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Mrs D. L. King, Ms J. L. McAlpine, P. Prendergast a Ms V. Roberts.

## 42. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – TACHWEDD 2022

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

| Rhif Taleb | Enw'r Cyflwnr | Swm | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| 1526 | Tesco Mobile | 3.00 | Taliad yswiriant misol |
| 1521 | HSBC | 8.00 | Taliadau banc 17 Medi – 18 Hydref 2022 |
| 1527 | Tesco Mobile | 12.99 | Contract ffôn |
| 1522 | Gunsmoke Communications | 320.00 | Ffi reoli Hydref 2022 |
| 1523 | CThEF | 2,936.77 | Didyniadau PAYE Hydref 2022 |
| 1524 | Cronfa Bensiwn Clwyd | 4,339.63 | Didyniadau pensiwn pensiwn ac ariannu diffyg ar gyfer Hydref 2022 |
| 1525 | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 7,950.73 | Cyflog net staff Cyngor Tref y Rhyl Tachwedd 2022 |
| 1391 | Cyngor Sir Ddinbych | 736.00 | AAC Swyddfeydd Dinesig, WRCC, y Rhyl. |
| 1419 | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 916.66 | Swyddog Apeliadau rhan-amser – taliad 6 o 12 |
| 1539 | Tesco Mobile | 3.00 | Taliad yswiriant misol |
| | **Cyfanswm taliadau** | **17,226.78** | |

| Categori | Disgrifiad | Swm |
|---|---|---|
| Santander | Llog ar gyfrif Hysbysiad 31 Diwrnod | 121.03 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 41.26 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 41.26 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 41.26 |
| HSBC | Llog ar Gyfrif Adneuo 7 Diwrnod | 41.26 |
| | **Cyfanswm incwm** | **£286.07** |

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddaid.*

## 43. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

| Rhif Taleb | Cyflenwr | Manylion | Swm £ |
|---|---|---|---|
| 1541 | Amazon | Papurach | 84.78 |
| 1542 | Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych | Arlwyo – Sul y Coffa | 1,192.50 |
| 1543 | CIPFA | Tanysgrifiad aelodaeth blynyddol Mr A. O. Williams | 362.00 |
| 1544 | Band Arian y Rhyl | Rhodd ar gyfer Gwasanaeth Sul y Coffa | 50.00 |
| 1545 | Sant Ioan Cymru | Rhodd ar gyfer Gwasanaeth Sul y Coffa | 50.00 |
| 1546 | Cardiau Nadolig elusen | Cardiau Nadolig y Maer | 249.90 |
| 1547 | Dafydd Timothy | Costau cyfieithu Rhodio'r Rhyl | 150.00 |
| 1548 | JTM Signs | Arwyddion Rheoli traffig Sul y Coffa | 336.00 |
| 1549 | Cyngor Tref yr Wyddgrug | 2 x docyn Cinio Elusen y Maer ac Ocsiwn 18fed Chwefror 2023 | 70.00 |
| 1550 | SLCC | Tansgrifiad Blynyddol Mr Gareth Nickels | 403.00 |
| 1551 | Y Cyngh D. L. King | Treuliau Maer Tachwedd 2022 | 190.35 |
| | **Cyfanswm Atodlen B** | | **£3,138.53** |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r atodlen ar gyfer ei thalu a'i llofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

## 44. EITEM ER GWYBDOAETH: PENNU CYFYNGIADAU CYFLYMDER LLEOL YNG NGHYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 34 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2022, adroddodd Clerc y Dre iddo dderbyn canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan yr Adran Economi a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar gyfer pennu cyfyngiadau cyflymder yng Nghymru gan awdurdodau priffyrdd lleol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

Dywedodd Clerc y Dref bod Llywodraeth Cymru, yn y bon, wedi penderfynu mai'r cyfyngiad cyflymder o fis Medi 2023 ar gyfer holl ffyrdd A a B fyddai 20mya, ond mai mater i Awdurdodau Lleol fyddai penderfynu os yw ffordd benodol yn cael cyfyngiad uwch.

Byddai hyn yn cael ei drafod gan Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Sir Ddinbych yfory a bydd ymgynghori gyda'r Cyngor Tref ar y ffyrdd hyn unwaith y byddant wedi eu penderfynu.

Dywedodd y Cynghorydd B. Mellor y byddai'r rhan fwyaf o'r ffyrdd yn y Rhyl yn dod o fewn y categori 20mya, ond oherwydd y pwysau ariannol arwyddocaol ar awdurdodau lleol a'r wlad gyfan, efallai y byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu mai nid dyma'r amser iawn i gyflwyno'r cyfyngiad 20mya.

***PENERFYNWYD*** *derbyn yr wybodaeth a bod y Cynghorydd B Mellor yn anfon y rhestr o ffyrdd y Rhyl sydd i ddod yn rhai 20mya at Glerc y Dref er mwyn iddo ei rhannu gyda'r aelodau er gwybodaeth.*

## 45. YSBYTY FRENHINOL ALEXANDRA

Ymhellach i gofnod rhif 34 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Tachwedd 2022, adroddodd Clerc y Dref, ers cyflwyno'r llythyr i Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen), bod Mr Gareth Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Therapiau a Gwyddorau Iechyd, a Ms Libby Ryan-Davies, y Cyfarwyddwr Gofal Iechyd Integredig ar gyfer yr ardal ganolog, wedi cadarnhau y byddent yn mynychu cyfarfod mis Ioanwr.

Hysbysodd y Cynghorydd J. Butterfield yr aelodau o gyfarfod gyda chynrychiolwyr Betsi Cadwaladr ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych a swyddogion eraill i drafod y mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda Cyngor Sir Ddinbych i ofyn am fanylion a chanlyniad y cyfarfod a gynlluniwyd gyda'r Bwrdd Iechyd cyn cyfarfod y Cyngor Tref ym mis Ionawr.*

## 46. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 47. COFNODION CYFRINACHOL

Derbyn y cofnodion canlynol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) er gwybodaeth a chymeradwyo'r argymhellion ynddynt:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol | - | 14eg Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod 19 - 28 |
| Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 24ain Hydref 2022 | - | Rhifau Cofnod 9 - 15 |
| Is-bwyllgor Asesu Risg | - | 29ain Tachwedd 2022 | - | Rhifau Cofnod 16 - 24 |

Mewn perthynas â chofnod rhif 22 cyfarfod yr Is-bwyllgor Asesu Risg a gynhaliwyd ar 29ain Tachwedd 2022, roedd Clerc y Dref yn falch o adrodd bod achos busnes y Cyngor Tref ar gyfer adeilad y Bee and Station wedi ei gymeradwyo gan Grwp Rheoli Asedau Cyngor Sir Ddinbych.

Holodd Clerc y Dref yr Aelodau os oeddynt yn hapus i'r Is-bwyllgor Asesu Risg barhau i oruchwylio trafodaethau, a diolchodd i'r cynrychiolwyr a benodwyd, y

Cynghorwyr A. R. James a P. Prendergast, am eu gwaith parhaus a'u cymorth ar y mater hwn.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r cofnodion a bod yr Is-bwyllgor Asesu Risg yn parhau gyda'r trafodaethau ar adeilad y Bee and Station ar ran y Cyngor Tref.*

## 48. RHYDDFREINIWR ANRHYDDEDUS - POLISI

Cyfeiriodd Clerc y Dref at ei adroddiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a ysgrifennwyd yn unol â pholisi'r Cyngor ar gymeradwyo enwebiadau ar gyfer y dyfarniad hwn.

Y ddyddiad cau i aelodau wneud unrhyw enwebiadau ysgrifenedig ysgrifenedig yw hanner dydd ar ddydd Llun12fed Rhagfyr. Rahid i enwebiadau gynnwys manylion pam y teimlent y dylid ystyried y person ar gyfer y dyfarniad.

## 49. CYLLIDEB FLYNYDDOL 2023/24 / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Cyfeiriodd Clerc y Dref at argymhellion y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol (CSG) (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) ar gyfer Cyllideb Flynyddol 2023/24 i'w hargymell i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 21ain Rhagfyr 2022, ac i argymell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

Adroddodd Clerc y Dref ar rai datblygiadau ers ysgrifennu'r adroddiad mewn perthynas â Gwasanaethau Hamdden Sir Ddinbych, etholiadau eleni, cynnydd o 31 yn nifer aneddiadau y Rhyl a'r prisiad drafft ar bensiynau, ac argymhellodd bod y gyllideb yn aros yn ddigyfnewid.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a'i gymeradwyo ar gyfer ei argymell i gyfarfod y Cyngor ar 21ain Rhagfyr 2022.*

## 50. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ………………………